



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

# Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

## **Atodlen 8: Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru [Network Rail]**

---

# Cynnwys

---

1	Cefndir a chyd-destun	3
2	Ymchwiliad safonau mewn perthynas â personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru	4
3	Rhesymoldeb a chymesuredd	6
4	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan y person perthnasol	9
5	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd	14
6	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg	18
7	Casgliadau'r ymchwiliad safonau	19
8	Y Camau Nesaf	23
	Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau	24

# 1 Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'), yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Hyd yn hyn, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal ymchwiliadau safonau mewn perthynas â 209 o sefydliadau. Mae'r Mesur yn cyfeirio at 'bersonau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau'. Mae 'person' yn y cyd-destun hwn yn golygu sefydliadau a sectorau sy'n dod o fewn categori o bersonau a bennir yn Atodlenni 5 a 6, neu Atodlenni 7 ac 8.

Mae'r ymchwiliad hwn i'r sector bysiau a threnau yn ychwanegol i'r nifer hynny. Dyma'r ail ymchwiliad i sectorau a enwir yn Atodlen 8, y Mesur. Eisoes mae ymchwiliad wedi ei gynnal i bersonau neilltuedig sy'n darparu swyddfeydd post i'r cyhoedd ac ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth. Mae'r Comisiynydd hefyd yn y broses o gynnal ymchwiliad i'r sectorau nwy a thrydan.

Mae'r Comisiynydd wedi defnyddio'r gweithgareddau a restrir yn Atodlen 9 y Mesur fel sail i'r ymchwiliad hwn.

## 2 Ymchwiliad safonau mewn perthynas â phersonau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru

Yn unol ag adran 62 y Mesur, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 7 Mawrth 2016 at sylw personau yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp canlynol o bersonau:

- Atodlen 8: 'Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ("y gwasanaethau cysylltiedig") sy'n gysylltiedig â gwasanaethau sy'n dod o fewn colofn (2) mewn unrhyw un neu ragor o'r cofnodion blaenorol yn y tabl hwn (y "gwasanaeth sylfaenol"), p'un ai hwy yw'r personau sy'n darparu'r gwasanaethau sylfaenol ai peidio.'

At berwyl yr ymchwiliad safonau hwn, penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad i Network Rail fel cwmni sy'n darparu'r gwasanaethau cysylltiedig uchod.

Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio, sy'n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ac sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddi roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu:

- pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bersonau (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio).

Noda memorandwm esboniadol y Mesur 'bod dyletswyddau y gellir eu gosod ar y personau hynny a restrir yn Atodlen 8 yn y Mesur arfaethedig, ac sydd o fewn Atodlen 7, yn gyfyngedig i ddyletswyddau sy'n dod o fewn dau fath o safon, sef cyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion'<sup>1</sup>

Roedd yr ymchwiliad, felly, yn casglu tystiolaeth ar y gweithgareddau a restrir fel safonau cyflenwi gwasanaeth a chadw cofnodion yn Atodlen 9 Mesur y Gymraeg. Ystyriwyd rheoliadau oedd eisoes wedi eu cyhoeddi ac yn cynnwys gweithgareddau ychwanegol i'r rhai a restrir yn Atodlen 9 yn ogystal.

Cychwynnodd cyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 31 Mawrth 2016. Daeth i ben ar 30 Mehefin 2016.

---

<sup>1</sup> [Memorandwm esboniadol Mesur Arfaethedig y Gymraeg \(Cymru\)](#)

## **Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – darparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru**

Yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan Network Rail. Gwnaethpwyd hynny trwy dderbyn holiadur wedi ei gwblhau ganddynt. Casglwyd tystiolaeth hefyd gan Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg a'r cyhoedd.

Cynhaliwyd dau sesiwn briffio ar bwrpas a chylch gorchwyl yr ymchwiliad ar gyfer Network Rail. Un ar 12 Ebrill yng Nghanolfan Fusnes Conwy a'r llall ar 15 Ebrill yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd.

### 3 Rhesymoldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63(1) y Mesur, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25(1) yn afresymol neu'n anghymesur. Ystyriwyd rhesymoldeb a chymesuredd wrth greu'r adroddiad safonau hwn a bydd yr ystyriaeth hon yn parhau trwy gydol y camau sydd i ddilyn.

#### Cam 1: Ymchwiliad safonau

Cyflwyno adroddiad safonau yn seiliedig ar ymgynghoriad gyda'r sector yw cwblhad cam cyntaf y broses.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd:

- a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys ai peidio, ac
- b) o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, ddod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i'r person mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

#### Cam 2: Cyflwyno rheoliadau

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a wneir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu gwneud) yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

- a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu bod
- b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

## **Cam 3: Pleidlais ar y rheoliadau drafft ar lawr y Senedd**

Bydd dadl a phleidlais ar gymeradwyo'r rheoliadau drafft yng nghyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd pleidlais i gymeradwyo'r rheoliadau yn gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r sefydliad neu'r sector, ac yn galluogi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio iddynt.

## **Cam 4: Hysbysiadau cydymffurfio drafft a therfynol**

Drwy wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd:

- a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), a
- b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Bydd y Comisiynydd yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth ddod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon ar ddiwrnod gosod, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Bydd y Comisiynydd yn ymgynghori gyda pherson ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio drafft. Dyma gyfle i ystyried rhesymoldeb a chymesuredd unrhyw ofynion penodol o fewn yr hysbysiad a bydd modd i'r sefydliad gyflwyno tystiolaeth bellach yn hynny o beth.

Yn seiliedig ar yr ymgynghoriad hwnnw, bydd y Comisiynydd yn cyflwyno hysbysiad cydymffurfio terfynol i berson. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio iddynt.

Wedi i'r Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddi ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe byddai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddo apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

## Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymchwiliad safonau. Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid oes un o'r meini prawf yn bwysicach na'i gilydd.

- A yw'r person perthnasol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r person perthnasol yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; cadw cofnodion) yn gymwysadwy i'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn gwneud y gweithgaredd dan sylw?
- A yw'r person perthnasol eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun neu bolisi iaith Gymraeg?
- A yw'r person perthnasol eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y personau perthnasol eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r person perthnasol?



## 4 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan y person perthnasol

Yn yr adran hon ceir amlinelliad o ymatebion Network Rail i'r holiadur a anfonwyd atynt.

### 2. Cyffredinol

#### Sawl aelod o staff sy'n gweithio i'r cwmni yng Nghymru?

Nododd Network Rail bod 1400 yn cael eu cyflogi gan yr hyn a ddisgrifir ganddynt fel y 'Wales Route' [rhwydwaith Cymru]. Maent yn pwysleisio bod y llwybr yma yn gyfrifol am ddarnau o'r rhwydwaith ar y ffin ac yn Lloegr felly bydd cyfran sylweddol o'r ffigwr yna yn gweithio o safleoedd y tu allan i Gymru.

Esbonnir fod rhwydwaith Cymru yn rhan o gwmni Network Rail Infrastructure Ltd yn hytrach na'n gwmni ar wahân. Ond, bod gweithrediad dyddiol y llwybr wedi ei ddatganoli at lefel llwybr.

'The Wales route is a part of Network Rail Infrastructure Ltd and is not a separate business. However, the day to day operation of the route has been devolved to route level.'

#### Ydych chi'n gwybod sawl aelod o'ch staff sydd â sgiliau Cymraeg? Os ydych, nodwch nifer os gwelwch yn dda.

Nid yw Network Rail wedi cynnal arolwg manwl o sgiliau staff ond maent yn amcan bod ffigwr o tua 60 â sgiliau Cymraeg. Byddai hyn yn cyfateb i 4.3% o'r cyfanswm staff a nodwyd uchod.

#### A oes rhywun yn cyflenwi gwasanaeth ar eich rhan dan gytundeb? Os oes, rhowch esboniad.

Nododd Network Rail bod nifer yn cyflenwi gwasanaethau dan gytundeb a bod hyn yn amrywio o ddarparu gwelliannau a diweddariadau rheilffordd, gweithgareddau marchnata a chyfathrebu i wasanaethau corfforaethol. Ni chafwyd unrhyw fanylion pendant.

#### Ydych chi'n dyfarnu grantiau i drydydd parti?

Nid yw Network Rail yn dyfarnu grantiau i drydydd parti.

## 2. Gwasanaethau cyfrwng Cymraeg

**Ydych chi'n gweithredu unrhyw fath o bolisi neu gynllun iaith Gymraeg ar hyn o bryd?**

Nid yw Network Rail yn gweithredu polisi na chynllun iaith ffurfiol. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi eu bod, fel llwybr sydd yn gynyddol ddatganoledig, yn bositif am y Gymraeg ac yn gweithio tuag at gynyddu dwyieithrwydd ar draws y rhwydwaith.

**Ydych chi'n cynnig unrhyw hyfforddiant ieithyddol i'ch staff?**

Nododd Network Rail eu bod yn cynnig gwersi Cymraeg wythnosol yn eu prif swyddfa yng Nghaerdydd.

### Gohebiaeth

Eglurodd Network Rail mai yn Saesneg yn unig maent yn anfon gohebiaeth at unigolion, a phan yn gohebu â mwy nag un person ar y tro e.e. trwy gyfrwng cylchlythyr neu lythyr at nifer o bobl ar yr un pryd. Yr arfer ganddynt yw nodi ar ohebiaeth bod modd i bobl wneud cais am fersiwn Cymraeg os yn dymuno. Maent yn ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith.

### Galwadau Ffôn, Llinellau Cymorth a Chanolfannau Galwadau

Mae canolfan alwadau 24-awr, 7 diwrnod yr wythnos Network Rail wedi ei leoli yn Kingston-upon-Hull. O ganlyniad, maent yn dweud nad oes modd iddynt ymdrin â galwadau ffôn trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn nodi eu bod wedi penodi aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i'r tîm sy'n ymwneud â'r gymuned yn ddiweddar felly mae modd iddynt gyfathrebu â phobl sy'n dymuno gwneud yn Gymraeg.

### Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus

Nododd Network Rail eu bod yn cynnal cyfarfodydd gydag un neu fwy o aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Yn ogystal, roedd digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd yn cael eu cynnal yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, mewn sylw ychwanegol, nododd Network Rail eu bod, wrth gynnal digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd, yn cynnig peth deunydd arddangos e.e. gwybodaeth ar hysbysfyrddau am waith prosiect ayyb. yn ddwyieithog, ond nid yw popeth ar gael yn Gymraeg. Ymhellach, fe nododd Network Rail eu bod yn darparu deunydd yn Gymraeg bob tro os yn derbyn cais amdano.

### Cyhoeddusrwydd, hysbysebu a dangos deunydd yn gyhoeddus

Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd Network Rail nad oedd dau o'r gweithgareddau (gwybodaeth iechyd a diogelwch, a hysbysiadau newid amserlen) yn berthnasol iddynt. O'r ddau weithgaredd arall, roeddent yn anfon datganiadau i'r wasg yn Saesneg yn unig ac roedd posteri ar gael ganddynt yn ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig. Ychwanegwyd y sylwadau isod ganddynt mewn ymateb i'r cwestiwn:

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – darparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru

'Rydym yn ymdrechu i ddarparu unrhyw gyfathrebiad gan Network Rail ynghylch amhariad neu welliant gwasanaeth (sydd yn gysylltiedig â'n prif weithredwr Trenau Arriva Cymru) yn gwbl ddwyieithog, er enghraifft, posteri mewn gorsaf a thafleuni a rennir gyda theithwyr mewn gorsafoedd i rannu negeseuon 'checiwch cyn teithio'. I roi enghraifft ddiweddar, mae'n ymgyrch hysbysebu ynghylch cau Twannel Hafren yn yr hydref yn gwbl ddwyieithog.

Wrth ystyried ein cyfathrebu â chymdogion i'r linell drên, mae pob llythyr a anfonir yn nodi'n glir bod modd archebu gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae peth anghysondeb yma gan nad yw tîm y gymuned bob amser yn gweld yr holl ohebiaeth i'r trigolion sy'n byw wrth y linell drên a weithiau daw gohebiaeth o du allan. Rydym yn adolygu hyn ac yn gweithio tuag at wella'n prosesau yn hynny o beth.

Pan yn dal sesiynau galw mewn ynghylch gwaith prosiect, mae hysbysfyrddau a 'pop-ups' yn ddwyieithog ond nid yw'r deunydd print i gyd yn ddwyieithog. Mae hyn yn uchelgais rydym yn gweithio'n gynyddol tuag at gyflawni, a rydym wastad yn darparu fersiynau Cymraeg ar gais.'

### Llunio [creu] a chyhoeddi ffurflenni

Nododd Network Rail nad oedd y gweithgareddau o lunio ffurflenni cwyno nac eiddo coll yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, yn y sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn, fe wnaethant nodi eu bod yn anfon ffurflenni at drigolion sy'n byw ger y traciau o bryd i'w gilydd:

*'Fel yr ydych yn ymwybodol, nid ydym yn darparu gwasanaethau rheilffordd yn uniongyrchol i'r cyhoedd.'* Wedi dweud hynny, roedd Network Rail yn cydnabod eu bod yn anfon ffurflenni at drigolion sy'n byw ger y rheilffordd ac eisiau gwneud cais oherwydd difrod i eiddo. Mae'r ffurflenni yma'n cael eu hanfon yn uniaith Saesneg fel arfer. Mae Network Rail yn nodi bod y ffurflenni yma'n dod o swyddfeydd y tu allan i Gymru gan amlaf.

### Gwefan, ar-lein a pheiriannau hunan wasanaeth

Nododd Network Rail bod ganddynt wefan a'u bod yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol (Twitter yn benodol) ond bod y gweithgareddau yma'n cael eu cynnal trwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Nid ydynt yn cynnig ap ar gyfer ffôn felly nid oedd hyn yn berthnasol. Fel sylw ychwanegol, esboniwyd nad oes gan y llwybr yng Nghymru wefan ar wahân ond yn hytrach ei fod yn rhan o wefan ehangach Network Rail. Mae'r wefan yn y broses o gael ei drawsnewid gyda'r disgwyliad y bydd adrannau ar wahân i'r ardaloedd gwahanol. O ganlyniad, maent yn gobeithio bydd yr adran ar Gymru yn ddwyieithog.

### Arwyddion

O'r gweithgareddau yn yr adran hon, nododd Network Rail nad oeddent yn darparu arwyddion mewn gorsafoedd trên, nac arwyddion iechyd a diogelwch. Mae'r arwyddion maent yn eu gosod ar y rhwydwaith ar gael yn 'Saesneg gyda pheth Cymraeg'. Maent yn nodi bod llawer o'r arwyddion ar y llwybr yn hanesyddol ac, o

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – darparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru

ganlyniad, yn Saesneg yn unig. Pan yn gosod arwyddion newydd yng Nghymru, dywedant eu bod yn ymdrechu i osod rhai dwyieithog gan gynnig enghraifft benodol o brosiect i osod gwifrau ar gyfer trydanu'r rheilffordd yn ne Cymru.

Ymddengys i'r Comisiynydd bod gwahanol gwmnïau'n gyfrifol am arwyddion mewn gorsafoedd yng Nghymru ac argymhella Llywodraeth Cymru i ystyried hynny wrth bennu rheoliadau.

### Systemau annerch cyhoeddus

Nid oedd y gweithgaredd yn yr adran hon yn berthnasol i Network Rail yn ôl eu hymateb.

### Derbyn ymwelwyr

Nid oedd y gweithgareddau o dderbyn ymwelwyr i safleoedd sy'n agored i'r cyhoedd, na desgiau gwybodaeth yn berthnasol i Network Rail – nid yw eu swyddfeydd yng Nghymru yn agored i'r cyhoedd.

### Cyrsiau

Nid yw Network Rail yn darparu cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd.

### Brand a hunaniaeth gorfforaethol

Mae brand ac enw cwmni Network Rail yn uniaith Saesneg. Nid oes ganddynt frand ar wahân ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru ond maent yn nodi eu bod yn defnyddio pennawd llythyr 'Network Rail Wales Cymru' ar gyfer cyfathrebiadau allanol.

### Gwasanaethau eraill

Ni nododd Network Rail eu bod yn cynnig unrhyw wasanaethau yn ychwanegol i'r rhai a restrwyd yn yr holiadur.

### Gwneud cwsmeriaid yn ymwybodol o wasanaethau cyfrwng Cymraeg

Ni chafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn.

## 3. Cadw Cofnodion

Gofynnwyd i Network Rail nodi os oeddent yn cadw cofnod o'r isod:

- sgiliau ieithyddol staff
- ceisiadau am wasanaethau cyfrwng Cymraeg
- y sgiliau sydd angen ar gyfer swyddi penodol wrth recriwtio
- unrhyw gwynion a dderbyniwyd gennych

Nododd Network Rail eu bod yn cadw cofnod o gwynion a hynny ar system rheoli achosion canolog. Nid oeddent yn cadw cofnod o sgiliau staff nac o geisiadau am wasanaethau cyfrwng Cymraeg.

## **4. Unrhyw sylwadau pellach**

Cafwyd esboniad ychwanegol gan Network Rail yn cyfeirio at ddefnydd o'r Gymraeg ar groesfannau. Dyma bwnc sydd wedi bod yn destun nifer o gwynion i'r Comisiynydd yn y gorffennol. Dywed Network Rail y byddai galluogi unigolion sy'n dymuno croesi'r traciau gyfathrebu â signalwr yn golygu newid sylweddol mewn staffio, a sgiliau staff, er mwyn cael swyddogion sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg. Maent yn cyfeirio at yr angen i sicrhau diogelwch a chywirdeb wrth ganiatáu i'r cyhoedd groesi'r traciau a'r anghenion gallu penodol sydd angen ar signalwyr i gyflawni'r swydd. Nodant eu bod yn gweithredu cynllun i gau cynifer o groesfannau â phosib dros y blynyddoedd nesaf, a defnyddio technoleg i dynnu'r angen i siarad â signalwr yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhagweld y bydd y dechnoleg yma'n weithredol am nifer o flynyddoedd.

## 5 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd

Derbyniwyd cyfanswm o 264 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. Derbyniwyd 65 o ymatebion i'r ymchwiliad safonau gan unigolion a ddewisodd gwblhau holiadur a ddarparwyd ar eu cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan.

Derbyniwyd 199 ymateb pellach yn seiliedig ar dempled o ymateb safonol a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; yn yr achos hwn roedd yr holl ymatebion yr un fath.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi yn Atodiad A.

Mae'r tabl isod yn dangos o ble daeth yr ymatebwyr yn ôl eu lleoliad daearyddol.

### Nifer yr ymatebion i'r ymchwiliad safonau yn ôl lleoliad<sup>2</sup>

Lleoliadau	Nifer	Canran (%)
Abertawe	6	2.3
Blaenau Gwent	3	1.1
Bro Morgannwg	6	2.3
Caerffili	4	1.5
Casnewydd	3	1.1
Castell-nedd Port Talbot	6	2.3
Ceredigion	22	8.3
Conwy	11	4.2
Caerdydd	33	12.5
Gwynedd	84	31.8
Merthyr Tudful	5	1.9

<sup>2</sup> Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys yr holl ymatebion a ddaeth drwy'r holiadur, ynghyd â thempled Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – darparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru


Lleoliadau	Nifer	Canran (%)
Pen-y-bont ar Ogwr	1	0.4
Powys	8	3.0
Rhondda Cynon Taf	7	2.7
Sir Benfro	4	1.5
Sir Ddinbych	5	1.9
Sir Fynwy	2	0.8
Sir Gaerfyrddin	16	6.1
Sir y Fflint	2	0.8
Torfaen	1	0.4
Wrecsam	3	1.1
Ynys Môn	18	6.8
Tu allan i Gymru	11	4.2
Heb ateb	3	1.1
Cyfanswm	264	100%

Yn yr holiadur ar-lein, gofynnwyd i ymatebwyr nodi os oeddent yn cytuno, neu'n anghytuno a ddylai Network Rail ddarparu'r gwasanaethau a restrir yn Adran 4 trwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad oeddent yn siŵr, roedd modd dewis opsiwn 'ddim yn gwybod'. Union eiriad y cwestiwn a osodwyd oedd:

'A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r gwasanaethau a ddaw o dan y categorïau uchod gael eu cynnig yn Gymraeg gan y cwmnïau isod?'

Isod mae siart yn dangos yr ymatebion a dderbyniwyd. Fel y gwelir, mae'r mwyafrif yn cytuno y dylai Network Rail ddarparu'r gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – darparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru



Yn ogystal â gofyn am ymateb cytuno/anghytuno/ddim yn gwybod, roedd yr holiadur yn caniatáu sylwadau ychwanegol. Roedd nifer o'r sylwadau yn cael eu cynnig ar gyfer y tri grŵp o bersonau a cheir isod grynodedb o'r prif bwyntiau hynny sydd hefyd yn berthnasol i Network Rail.

- Ynganiad enwau lleoedd Cymraeg, a'r defnydd o enwau lleoedd Saesneg oedd un o'r prif bwyntiau a nodwyd gan y cyhoedd. Roedd nifer yn teimlo bod safon y Gymraeg mewn cyhoeddiadau ar blatfformau neu ar deithiau yn annerbyniol.
- Yn gyffredinol hefyd, nododd sawl un anfodlonrwydd â'r lefel o ddarpariaeth weledol o'r Gymraeg gyda nifer yn nodi yr angen i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr elfennau canlynol:
  - tocynnau
  - arwyddion
  - posterï a deunydd hysbysu
  - gwefannau a chyfryngau cymdeithasol
  - gwasanaethau ffôn
  - peiriannau hunan wasanaeth
  - brandio
- Roedd staffio yn bwnc a godwyd gan lawer wrth ymateb. Teimla nifer nad oedd posib i'r cwsmer dderbyn gwasanaeth Cymraeg oni bai bod staff â gwell dealltwriaeth sylfaenol o'r iaith. Roedd nifer o'r farn y dylai cwmnïau flaenoriaethu cael staff sy'n siarad Cymraeg mewn mannau gwerthu tocynnau, er enghraifft, ac y dylai staff ar fws neu drên gael dealltwriaeth sylfaenol er mwyn ymdrin â gofynion syml ble bod angen.
- Roedd sawl un hefyd o'r farn y dylai gwasanaethau sy'n derbyn arian cyhoeddus fod yn darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafwyd sylwadau oedd yn mynegi gwrthwynebiad i'r syniad o ddyletswyddau iaith yn gyffredinol. Roedd y themâu yn cynnwys:



## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – darparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru

- anghyfleustra gwasanaeth ac opsiynau Cymraeg i rai nad oedd yn dymuno'u derbyn, er enghraifft, dewis iaith wrth ffonio cwmni;
- pryderon bod dwyieithrwydd yn wastraffus o ran papur;
- anhawster darllen deunydd dwyieithog os yw'n golygu bod y testun yn llai ar sgriniau neu ar bapur;
- anghytundeb â'r gofyniad y dylai'r Gymraeg ymddangos yn gyntaf.
- baich ariannol ychwanegol y gofynion ar gwmnïau;
- a phryder gallai'r safonau fod yn rhy gymhleth ac eang gan osod gormod o ofynion ar unigolion / ymarferoldeb darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg gyda'r gweithlu presennol.

Roedd gan rai sylwadau yn benodol i wasanaethau Network Rail, gan gynnwys yr angen i sicrhau bod arwyddion diogelwch neu bosteri rhybudd dwyieithog ar gael ar eu safleoedd. Cafwyd nifer o sylwadau ynghylch arwyddion ar adeiladau a thraciau, gan awgrymu fod hyn yn flaenoriaeth i sawl ymatebydd. Yn ychwanegol, cafwyd sylw ynghylch cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan Network Rail, ac am yr angen i gael gwybodaeth cyfrwng Cymraeg ynddynt.

Nododd un ymatebydd bod Network Rail wedi rhoi sgriniau gwybodaeth uniaith Saesneg newydd yng ngorsaf Aberystwyth, gan ddisodli rhai dwyieithog blaenorol. Derbyniwyd ymateb gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg fel rhan o'r ymchwiliad. Ynddo, roeddent yn tynnu sylw at iaith arwyddion mewn gorsafoedd dan reolaeth Network Rail, gan gyfeirio'n benodol at ddigwyddiad yng ngorsaf Heol y Frenhines, Caerdydd.

## Safonau cadw cofnodion

Derbyniwyd sylw gan un ymatebydd bod cadw cofnodion eisoes yn rhan o waith y cwmnïau a bod y weithgaredd yn hanfodol ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth. Er enghraifft, er mwyn cael ymwybyddiaeth o sgiliau iaith staff er mwyn cyflenwi gwasanaethau. Cwestiynodd un ymatebydd os oedd rhaid i'r cofnodion gael eu cadw'n Gymraeg ac roedd un arall o'r farn fod y weithred o gadw cofnod yn bwysicach na'r iaith y'i cedwir.

## 6 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y panel Cyngori yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 63(3) y Mesur.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y rheoliadau sef gwireddu amcanion sylfaenol y Mesur; bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gan gydnabod y bydd pryder ymysg y rheini a gaiff eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg, pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod pawb yn deall gofynion y Mesur; y ddeddfwriaeth a ysgogodd ddyfodiad y safonau hyn.

Yn yr un modd â'r hyn a nodwyd yng nghyswllt y personau y cynhaliwyd ymchwiliad arnynt yn flaenorol, roedd y panel o'r farn y dylid ystyried sut y bydd rhai safonau yn cael eu gweithredu mewn modd 'rhesymol a chymesur' wrth osod y gofynion mewn hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 y Mesur.

Cytunodd y Panel yn gyffredinol y dylai'r gwasanaethau a enwir yn yr holiadur gael eu cynnig yn Gymraeg gan y cwmnïau. Yr oedd y Panel o'r farn y dylai pob cytundeb masnach gynnwys y gofyniad i gynnig gwasanaeth dwyieithog a dylai pob cwmni sydd yn derbyn arian cyhoeddus o ba bynnag ffynhonnell fod yn rhwymedig i wneud yr un peth.

Er hyn, gwelwyd gyda rhai gwasanaethau nad oedd aelodau o'r Panel yn gytûn neu yr oeddynt yn codi cwestiynau pellach. Roedd un aelod yn cwestiynu rhesymoldeb gofyn i sefydliadau gynnal cyfarfodydd dwyieithog gyda unigolion. Roedd aelod o'r Panel yn cwestiynu a yw gwasanaeth annerch cyhoeddus dwyieithog yn realistig i'r cwmnïau dan sylw tra bod aelod arall o'r farn ei fod yn bwysig i normaleiddio amlieithrwydd. Yr oedd un aelod hefyd yn pryderu am oblygiadau ariannol cynnig gwasanaeth derbyn ymwelwyr yn ddwyieithog.

Nododd un aelod o'r Panel y dylid annog cynnig cyrsiau yn Gymraeg yn hytrach na gorfodi, tra bod aelod arall o'r panel yn ei weld fel hawl sylfaenol i weithwyr.

Cafwyd sylw arall ynghylch rhoi blaenoriaeth i faterion sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwasanaeth o ddydd i ddydd i'r cyhoedd yn hytrach na gwasanaeth i unigolyn neu ddigwyddiad cyhoeddus sydd ddim yn rheolaidd. Yr oedd o'r farn y buasai gweithredu fel hyn yn annog datblygiad mewn defnydd o'r Gymraeg mewn modd cost-effeithiol.

## 7 Casgliadau'r ymchwiliad safonau

### Sylwadau cyffredinol

Mae'r casgliadau isod wedi seilio ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan Network Rail, y cyhoedd a'r Panel Cyngori mewn ymateb i'r ymchwiliad safonau. Nid yw Network Rail yn gweithredu cynllun na pholisi iaith o unrhyw fath, felly nid oes modd i'r ymchwiliad groesgyfeirio ag unrhyw ymrwymadau blaenorol a wnaed ganddynt. Beth a geir isod yw casgliadau sydd yn ystyried y gweithgareddau sy'n cael eu darparu'n bresennol gan Network Rail, a'r blaenoriaethau a nodwyd gan y cyhoedd yn eu hymatebion i'r ymchwiliad.

Daw'r rhestr o'r gweithgareddau a nodir yn Atodlen 9 y Mesur, yn ogystal â rhai sydd wedi eu cynnwys mewn rheoliadau blaenorol.

Ers dechrau'r ymchwiliad hwn, mae rheoliadau pellach wedi eu cyhoeddi mewn perthynas â'r Gymraeg. Nid oedd y Comisiynydd yn ystyried bod rhain yn berthnasol i'w hystyried ar gyfer y sector hwn.

Nodir bod adran 42 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i berson os yw'r person hwnnw, ac i'r graddau y mae'r person hwnnw, yn gwneud y gweithgareddau hynny.

Er hynny, dylid nodi nad oes rhaid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon o'r Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau fod person neu grŵp o bersonau yn gwneud y gweithgaredd,<sup>3</sup> boed hynny i raddau mwy neu lai, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael eu gwneud yn benodol gymwys iddynt. Daethpwyd i'r casgliadau hynny gan fod y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd o fewn cwrdd y gweithgaredd.

Nodir hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio'r hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

Er hynny, lle ceir tystiolaeth nad yw person neu grŵp o bersonau yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a geir yn rhan o'r ymchwiliad safonau neu drwy ddulliau eraill, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddynt, oni bai fod rhesymau dilys dros wneud hynny.

---

<sup>3</sup> Gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau fel y'i diffinnir yn adran 28 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – darparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i gasgliad ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 y Mesur.

O'r gweithgareddau a oedd yn sail i'r ymchwiliad, roedd Network Rail yn nodi bod y gweithgareddau canlynol yn berthnasol iddynt:

- gohebiaeth a anfonir gan gorff
- galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff
- cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu
- arddangos deunydd yn gyhoeddus
- llunio a chyhoeddi dogfennau
- llunio a chyhoeddi ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein
- defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol
- arwyddion a arddangosir
- gwneud hysbysiadau
- dyfarnu contractau
- hunaniaeth gorfforaethol

O'r uchod, nododd Network Rail nad oeddent yn gwneud nifer ohonynt yn Gymraeg. Dymuna'r Comisiynydd nodi pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng ymrwymadau person (yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt) a pherfformiad (i ba raddau maent yn cydymffurfio â'r disgwyliadau hynny ar hyn o bryd). Mae'r Comisiynydd o'r farn y dylai ymrwymadau ddiwallu anghenion defnyddwyr Cymraeg maent yn eu gwasanaethu. Gydag amserlen resymol wedi ei phennu gellid delio ag unrhyw rwystrau sy'n bodoli a bydd y Comisiynydd yn ystyried y rhwystrau hynny wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 y Mesur.

Yn ogystal, nododd Network Rail bod cwmnïau eraill yn gweithio iddynt dan gytundeb. Roedd y gweithgareddau yn amrywio o ddarparu gwelliannau a diweddariadau rheilffordd, gweithgareddau marchnata a chyfathrebu i wasanaethau corfforaethol.

Ni chafwyd ymateb uniongyrchol gan Network Rail i'r cwestiwn sut oeddent yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaethau Cymraeg maent yn eu darparu. Fodd bynnag, o'u hymatebion eraill, ac o ystyried nod ac amcanion y corff, daw'r Comisiynydd i'r casgliad y byddai hwn yn weithgaredd perthnasol iddynt:

- codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

## Casgliad 1:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i Network Rail fel corff sydd yn darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru:

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – darparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru

- gohebiaeth a anfonir gan gorff
- galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff
- cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu
- arddangos deunydd yn gyhoeddus
- llunio a chyhoeddi dogfennau
- llunio a chyhoeddi ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein
- defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol
- arwyddion a arddangosir
- gwneud hysbysiadau
- dyfarnu contractau
- hunaniaeth gorfforaethol
- codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

O edrych ar y gwasanaethau uchod, dylid hefyd ystyried rhai gweithgareddau penodol y gellid eu cynnwys oddi fewn i'r penawdau. Er enghraifft, cafwyd ymateb gan aelod o'r cyhoedd oedd yn nodi bod sgriniau arddangos Saesneg wedi cymryd lle rhai dwyieithog mewn un gorsaf. Cafwyd hefyd sylw ynghylch yr angen i sicrhau bod gwybodaeth diogelwch ar gael yn y Gymraeg. Dylid sicrhau bod y rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithgareddau o'r fath gan gynnwys, ond heb fod wedi cyfyngu i:

- sgriniau arddangos mewn gorsafoedd
- gwybodaeth diogelwch

Yn ogystal, derbyniwyd sylwadau gan Network Rail mewn perthynas â chroesfannau rheilffordd. Dyma un o brif swyddogaethau Network Rail o safbwynt iechyd a diogelwch y cyhoedd. Yn bresennol, nid oes modd i'r cyhoedd gael gwybod yn Gymraeg os yw'n ddiogel croesi'r trac. Ystyria'r Comisiynydd fod angen eglurder a sicrwydd ynghylch y ddarpariaeth hon.

## Casgliad 2:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru ystyried yr angen i reoliadau wneud darpariaeth safonau cyflenwi gwasanaethau i gynnwys y weithgaredd benodol o reoli croesfannau rheilffordd.

Yn ôl Network Rail, nid ydynt yn cynnal y gweithgareddau isod ar hyn o bryd:

- systemau annerch cyhoeddus
- derbyn ymwelwyr
- cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd
- dyfarnu grantiau

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – darparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru

### Casgliad 3:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad na ddylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau uchod fod yn benodol gymwys i Network Rail fel corff sydd yn darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru.

### Safonau cadw cofnodion

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Network Rail gadw cofnod o sut maent yn cadw at y safonau y disgwylir iddynt gydymffurfio â hwy. Yn ogystal, daw'r Comisiynydd i'r casgliad y dylent gadw cofnod o gwynion.

### Casgliad 4:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i bersonau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru.

Wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, daeth yn amlwg i'r Comisiynydd y gallai fod newidiadau yn y trefniant o ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru wrth i swyddogaethau gael eu datganoli i Gymru. Ar hyn o bryd, Network Rail sydd yng ngofal y rhwydwaith yng Nghymru ond mae'n bosibl y gall hyn newid yn y dyfodol.

### Casgliad 5:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer unrhyw newid mewn personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru.

### Safonau sy'n ymdrin â materion atodol

Mae darpariaeth yn y Mesur yn ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 –Darpariaethau Atodol). Pwrpas y safonau yw hwyluso adrodd a monitro cydymffurfedd sefydliadau a gosod camau iddynt gyhoeddi gwybodaeth ar eu perfformiad yn erbyn y gofynion statudol. Mae hyn yn gydnabyddiaeth o egwyddorion sylfaenol rheoleiddio sy'n cydnabod fod gan y sefydliad, yn ogystal â'r arolygwr neu rheoleiddiwr rôl i'w chwarae mewn sicrhau ymlyniad at ofynion statudol.

### Casgliad 6:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol mewn perthynas â'r safonau cyflenwi gwasanaeth a chadw cofnodion fod yn benodol gymwys i Network Rail.

## 8 Y Camau Nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64(4) y Mesur:

- pob person perthnasol
- Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg
- pob person a gymerodd ran yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63
- Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mai asesiad effaith rheoleiddiol yw'r isod: 'A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation.'

Yn hyn o beth, gall asesiad effaith rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Ran 4 y Mesur ai peidio.

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir rhestr o'r person(au) perthnasol y cynhaliwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy, y Panel Cynghori ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn fodlon inni gyhoeddi eu sylwadau.

### Person perthnasol

- Network Rail

### Aelodau'r cyhoedd

- Alaw Fôn Huws
- Ben Sulley
- Bethan Williams
- Clive Betts
- Clive James
- Curon Wyn Davies
- Cynghorydd Jeff Smith
- Dafydd Lloyd
- David Subacchi
- Elan
- Elin Walker Jones
- Elwyn Vaughan
- Fred Jeffreys
- Gareth Clubb
- Gareth Popkins
- Gethin Rhys
- Helen Greenwood
- Huw Roberts
- Ieuan Parry
- Janice Rhisiart
- Judith Humphreys
- Liam Townsend
- Lowri Cunnington
- Lowri Price
- Lyn Williams
- Marc Evans
- Marged
- Meinir James
- Morgan Owen
- Nia Llwyd
- Paul Harley
- Phil Edwards
- Sali Burns
- Siôn Jobbins
- Sioned Williams
- Steffan Bryn
- Steffan Rees
- Stephen Rule
- Wiliam Rowlands

### Sefydliadau

- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

### Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

- Bethan Jones Parry
- Carl Cooper
- Dr Heledd Iago
- Meinir Davies
- Nick Speed